CYNGOR BRO LLANLLWNI
Adroddiad o gyfarfodydd 15 Mai 2023

Y CYFARFOD BLYNYDDOL
Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys, Llanllwni.
Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod
Roedd y Clerc wedi rhoi poster o'r agenda yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.
Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd mantolen am y flwyddyn 01 Ebrill 2022 – Mawrth 2023 a chytunwyd gan y Cynghorwyr bod y cyfrifon yn gywir. Arwyddwyd y ffurflen flynyddol gan y Cadeirydd. Llofnodwyd y ffurflenni priodol sef "**Rheolau Sefydlog**" a **Chod Ymddygiad**, "**Rheolau Ariannol**", "**Cytundeb Cyflogaeth**" yn ogystal â dogfen ynglŷn â **chynllun iaith** a hefyd diweddaraiad o asedau y Cyngor. Arwyddywd y dogfennau hyn gan y Cadeirydd.
Roedd aeolod o'r cyhoedd yn bresennol.

Bydd y Cyfarfod Blynyddol nesaf yn y Neuadd Gymunedol Llanllwni nos Lun 13 Mai 2024 am 8yh.

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r cyngor nos Lun 15 Mai 2023
Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Llongyfarchwyd CFFI Llanllwni am ennill yr Adran Hŷn yn Rali Sir Gaerfyrddin. Llongyfarchwyd Geraint Thomas (Blaencwmdu) am hyfforddi adran hŷn rygbi Llambed ac ennill yn erbyn Sanclêr.

Y CAE CHWARAE:
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod y dyddiau diwethaf. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae. Cafwyd cadarnahad bod y gwaith glanhau wedi'i gwblhau a phystion wedi'u gosod ar y cae.

GWEFAN LLANLLWNI:
Roedd Adroddiad mis Mawrth 2023 wedi ei osod ar y wefan.

DIFFIBRILYDDION
Roedd un diffibrilydd wedi ei osod yn ei le ond nodwyd diffyg ar y diffibrilydd a osodwyd ar safle Capel Nonni

MANTOLEN:
Roedd y Clerc wedi cyflwyno mantolen o dderbyniadau a thaliadau. Cyflwynwyd hefyd amcangyfrif o gostau'r Cyngor am y cyfnod 01 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2024.

PENDERFYNWYD CEFNOGI
Eisteddfod Gŵyl Banc Awst, Llanbedr Pont Steffan.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni nos Lun 10 Gorffennaf am 8yh.